# NewsLine

Medi 2015 Rhifyn 131

CAERPHILLY COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

www.caerffili.gov.uk





# Gwaith yn dechrau ar ysgol flaenllaw

**Mae gwaith paratoi ar safle ysgol newydd aml-filiwn yn Oakdale yn awr ar y gweill, gyda chontractwyr yn paratoi i ddechrau adeiladu'r datblygiad newydd £25 miliwn ar hen safle Glofa Oakdale.**

Bydd yr Ysgol Gorllewin Islwyn 3 llawr yn cymryd lle ysgolion uwchradd Oakdale a Phontllan-fraith, a bydd yn gartref i amrywiaeth o fannau addysgu amrywiol, gan gynnwys labordai gwyddoniaeth a thechnoleg fodern.

Bydd yr ysgol hefyd yn elwa o gae 3G, trac athletau 200 medr ac ardal chwaraeon aml-ddefnydd yn ogystal â mannau dysgu awyr agored ac amffitheatr fechan.

Cafodd y contractwyr Willmott Dixon eu penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili i ymgymryd â'r gwaith adeiladu, ac mae cam cychwynnol y prosiect yn canolbwyntio ar yr isadeiledd a gwaith gwella tir.

Bydd grŵp o ddisgyblion o ysgolion Oakdale a Phontllan-fraith sydd wedi cael eu gwneud yn 'Llysgenhadon Adeiladu' hefyd yn ymwneud yn helaeth â'r prosiect datblygu. Byddant yn cynrychioli eu cyd-ddisgyblion dros y misoedd nesaf trwy wneud ymweliadau rheolaidd â'r safle adeiladu i ddilyn cynnydd a rhoi eu barn a chynnig syniadau.



Dywedodd y Cynghorydd Rhianon Passmore, "Mae'n wych gweld bod y gwaith wedi dechrau ar ddatblygiad yr ysgol newydd cyffrous hon, a fydd yn darparu disgyblion yn yr ardal gydag ysgol flaenllaw sy'n addas i'r 21ain ganrif. Bydd hwn yn un o'r datblygiadau ysgol gorau a mwyaf modern yng Nghymru gyfan ar ôl ei gwblhau."

Rhagwelir y bydd gwaith adeiladu ar adeilad yr ysgol ei hun yn dechrau ym mis Hydref/Tachwedd 2015. Mae'r ysgol i fod i agor yn haf 2017 yn barod ar gyfer y flwyddyn ysgol newydd.

Yng Nghaerffili, mae disgyblion o Ysgol Gynradd Gymraeg Caerffili hefyd wedi symud yn ddiweddar o'u hen safle ysgol ar Stryd Parcyfelin i mewn i'r adeilad rhestredig sydd wedi'i adnewyddu a'i moderneiddio ar gampws Y Gwindy (hen safle Ysgol Sant Ilan).

Ail-leolodd disgyblion a staff i'r adeilad hwn ar ddechrau'r flwyddyn ysgol, ac mae eisoes wedi arwain at amgylchedd dysgu ac addysgu llawer gwell ar gyfer y disgyblion.

Mae gwaith yn parhau ar y safle i ehangu'r ddarpariaeth oedran uwchradd ar gyfer disgyblion, a bydd cam terfynol y gwaith hefyd yn cynnwys darparu cae chwarae pob tywydd, trac rhedeg a chae glaswellt maint iau, a fydd yn cael eu datblygu yn barod ar gyfer Medi 2016.

**Am fwy o wybodaeth, ewch i**
**www.caerffili.gov.uk**

# A YW EICH BIN CHI'N PECHU?




## Peidiwch â gwastraffu eich ailgylchu!

Oeddech chi'n gwybod bod rhoi'r eitemau anghywir yn eich bin ailgylchu brown yn lleihau faint o ddeunydd y gellir ei ailgylchu, sy'n costio arian i bob un ohonom?

Mae angen eich help chi arnom i wella ansawdd ein hailgylchu trwy sicrhau nad oes unrhyw rai o'r 7 pechod biniau isod yn cael eu rhoi yn eich bin ailgylchu gwastraff y cartref!

## Y 7 PECHOD BINIAU AILGYLCHU

### CEWYNNAU

Dylech eu rhoi yn eich bin sbwriel.

### BAW ANIFEILIAID ANWES

Dylech ei roi yn eich bin sbwriel.

### DYFEISIAU TRYDANOL

Ewch â nhw i'ch canolfan ailgylchu.

### OEDDECH CHI'N GWYBOD?

Gall 75% o'ch sbwriel gael ei ailgylchu

### GWASTRAFF BWYD

Ailgylchwch unrhyw fwyd yn eich cadi bwyd ar wahân (tynnwch y deunydd pacio'n gyntaf ac ailgylchwch gymaint â phosibl o'r cynhwysydd bwyd).

### PLASTIGION PENODOL

Rhowch ffilm blastig yn eich bin gwastraff. Ewch a phlastig caled (teganau, cas CD, potiau blodau ag ati) i'r ganolfan ailgychu.

### DEUNYDD PACIO PENODOL

Pacedi creision/codenni bwyd anifeiliaid anwes/hambyrddau polystyren/deunydd pacio polystyren oddi ar nwyddau trydanol. Dylech roi'r rhain yn eich bin sbwriel.

### TECSTILAU

Ewch â nhw i'ch canolfan ailgylchu neu siop elusen.

## MAE'N HAWDD **AILGYLCHU** EICH GWASTRAFF BWYD

Y peth gorau a all ddigwydd i fwyd yw iddo gael ei fwyta, ond ar gyfer unrhyw beth na allwch ei fwyta fel cig, bara wedi llwydo, pilion ffrwythau a llysiau, esgyrn, braster cig, gweddillion bwyd a bagiau te, y peth gorau i'w wneud yw eu hailgylchu.

### Pam ailgylchu gwastraff bwyd?

Trwy ailgylchu gwastraff bwyd, gellir ei droi'n ynni i bweru cartrefi a chompost i dyfu bwyd.

### Gwybodaeth Ychwanegol

Gallwch fynd ag eitemau eraill fel pren, rwbel, dyfeisiau trydanol mawr a bach, eitemau mawr metel a phlastig i'ch canolfan ailgylchu agosaf. Ewch i: **www.caerffili.gov.uk**

Os hoffech chi gael mwy o wybodaeth am labeli dyddiadau a'r hyn y maent yn ei olygu, ewch i: **www.wales.lovefoodhatewaste.com**

Mae'r wefan yn cynnwys syniadau creadigol am sut i ddefnyddio eich gweddillion bwyd hefyd.

Mae Bwrdeistref Sirol Caerffili yn dda iawn am ailgylchu, ond mae angen i fwy o bobl ailgylchu mwy o'r eitemau cywir. Gyda'ch help chi, gallwn gyflawni cyfraddau ailgylchu uwch er mwyn arbed arian.

**Os nad ydych chi'n siŵr beth mae modd ei ailgylchu, cysylltwch â:**

- **01443 866533**
- **www.caerphilly.gov.uk**
- **@CaerphillyCBC**
- **www.facebook.com/yourcaerphilly**

recycle for Caerphilly
ailgylchu dros Gaerffili

### Sut gallaf ailgylchu fy ngwastraff bwyd?

**CAM 1**

Gwnewch yn siŵr fod gennych yr offer cywir - bydd angen cadi cegin a chadi ochr ffordd arnoch. Cysylltwch â ni os bydd angen unrhyw un o'r eitemau hyn arnoch. Gweler y manylion cyswllt isod.

**CAM 2**

Leiniwch gadi'r gegin â leinin neu bapur newydd.

**CAM 3**

Rhowch unrhyw wastraff bwyd yn y cadi, a byddwch yn ofalus i dynnu unrhyw ddeunydd pacio.

**CAM 4**

Pan fydd cadi'r gegin yn llawn, dylech ei wagio i'r cadi ochr ffordd a'i roi allan i'w gasglu unwaith yr wythnos er mwyn ei ailgylchu.

### MWY O RESYMAU I AILGYLCHU EICH GWASTRAFF BWYD

- MAE'N HAWDD
- MAE'N RHEOLI AROGLEUON BWYD
- MAE CADIS YN CLOI ER MWYN ATAL PLÂU RHAG MYND IDDYNT
- MAE'N CAEL EI GASGLU UNWAITH YR WYTHNOS
- MAE'N CAEL EI DROI'N GOMPOST A THRYDAN

Os nad ydych yn siŵr pa eitemau y gellir eu hailgylchu yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, ewch i **www.caerffili.gov.uk**

# Helpwch ni i siapio'n cyllid


**Mae cyngor Caerffili, fel yr holl awdurdodau lleol eraill ar draws Cymru, yn parhau i wynebu pwysau cyllideb ddirfawr oherwydd gostyngiadau cyllid parhaol o ganlyniad i lymder parhaol.**

Llynedd, fe wnaeth pobl leol ein helpu i siapio'n cyllid ac efallai byddwch yn cofio ein bod wedi gwneud ymgynghoriad eang i gasglu barnau am sut y gall y cyngor ddarparu ei gwasanaethau gyda llai o adnoddau.

Y negeseuon sy'n dod o Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru unwaith eto eleni yw bod y rhagolygon ariannol yn debygol o waethygu, felly bydd rhaid i ni wneud penderfyniadau hyd yn oed yn fwy anodd wrth i'n cyllid barhau i leihau.

Rydym wedi bod yn gweithio ar ragamcan gofynion cynilion o £26miliwn dros y ddwy flynedd nesaf. Serch hynny, mae nawr yn ymddangos dylai amcangyfrif mwy realistig o werth £31miliwn o arbedion fod yn darged.

Dywedodd Cyng. Keith Reynolds, Arweinydd y Cyngor, "Nid yw'r rhagolwg ariannol ar gyfer cynghorau Cymru yn mynd yn haws, ond yn ffodus yma yng Nghaerffili, rydym wedi bod yn rheoli'r sefyllfa gydag isafswm o effaith ar wasanaethau rheng flaen diolch i'n strategaeth cyllid."



**Cyng Keith Reynolds**
Arweinydd y Cyngor

"Serch hynny, mae dal heriau mawr o'n blaen a byddwn unwaith eto'n gofyn i bobl leol i ddweud eu dweud ar ein cynigion cyllid ar gyfer 2016/17. Mae'n debygol y byddwn yn dechrau'n hymgynghoriad cyhoeddus ychydig yn gynt eleni, er na fyddwn yn cael syniad oddi wrth Lywodraeth Cymru tan fis Hydref am y ffigwr tebygol. Mae'n bwysig fod cymaint o bobl ag sy'n bosib yn cael y cyfle i ddweud eu dweud, cyn i'r cyllid terfynol gael ei gytuno yn gynnar y flwyddyn nesaf," ychwanegodd.

Bydd manylion pellach am ymgynghoriad cyllid eleni yn cael eu rhyddhau gan y cyngor dros yr wythnosau nesaf.

# Cynlluniau ar gyfer Pontllan-fraith

**Mae trigolion wedi bod yn helpu siapio ailddatblygiad y dyfodol o dros 30 erw o dir ym Mhontllan-fraith.**




Gofynnodd y cyngor am fewnbwn o'r cyhoedd am gynlluniau ar gyfer tir sydd yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd gan swyddfeydd y cyngor Pontllan-fraith ac Ysgol Gyfun Pontllan-fraith.

Mae'r ddau adeilad, ar Heol Coed Duon, i fod i gau blwyddyn nesaf felly fe wnaeth y cyngor benodi ymgynghoriaeth cenedlaethol cynllunio , dylunio ac economeg o'r enw Nathaniel Lichfield & Partners (NLP) i gynhyrchu Briff Datblygiad i arwain unrhyw ddatblygiad am y dyfodol.

Dywedodd Cyng. Ken James, Aelod Cabinet dros Gynllunio ac Adfywio CBSC: "Rydym yn edrych ar y ddau safle fel cyfle cyffrous i gefnogi'r twf cynaliadwy a datblygiad cymunedau Coed Duon a Phontllan-fraith."

"Mae'r safleoedd yn gyfagos i'w gilydd ac mae'r cyngor angen archwilio'r posibilrwydd o'u defnyddio nhw i helpu dod dros y diffyg llym o dai yn y fwrdeistref sirol. Mae rhaid i bob awdurdod lleol sicrhau fod ganddynt gyflenwad tir pum mlynedd ar gyfer tai ac yn anffodus dim ond digon o dir am ddwy flynedd a hanner sydd gennym ar hyn o bryd."

Mae'r ysgol yn cau gan fod adeiladu newydd ar gyfer Ysgolion Cyfun Pontllan-fraith ac Oakdale yn cael eu hadeiladu ym Mharc Busnes Oakdale sydd gerllaw. Bydd gwasanaethau sydd yn swyddfeydd y cyngor ar hyn o bryd yn cael eu hadleoli i safleoedd eraill a bydd yr adeilad yn cael ei wacau fel rhan o ofynion arbedion dyfodol y cyngor. Mae digwyddiadau ymgynghoriad wedi cael eu cynnal yn y gymuned ond gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth ar wefan - **www.plans-for-pontllanfraith.co.uk**

# Oriau Agor newydd i Lyfrgelloedd

| ABERBARGOD | |
|---|---|
| Mawrth | 9:30 - 13:00 + 14:00 - 18:00 |
| Mercher | 9:30 - 13:00 + 14:00 - 17:00 |
| Iau | 9:30 - 13:00 + 14:00 - 17:00 |

| ABERCARN | |
|---|---|
| Llun | 9:30 - 13:00 + 14:00 - 17:00 |
| Mercher | 9:30 - 13:00 + 14:00 - 18:00 |
| Iau | 9:30 - 13:00 + 14:00 - 17:00 |

| ABERTRIDWR | |
|---|---|
| Llun | 9:30 - 13:00 + 14:00 - 18:00 |
| Mawrth | 9:30 - 13:00 + 14:00 - 17:00 |
| Iau | 14:00 - 18:00 |
| Gwener | 9:30 - 13:00 + 14:00 - 17:00 |
| Sadwrn | 9:30 - 13:00 |

| BARGOD | |
|---|---|
| Llun | 9:30 - 13:00 + 14:00 - 17:00 |
| Mawrth | 9:30 - 13:00 + 14:00 - 18:00 |
| Mercher | 9:30 - 13:00 + 14:00 - 17:00 |
| Iau | 9:30 - 13:00 + 14:00 - 17:00 |
| Gwener | 9:30 - 13:00 + 14:00 - 18:00 |
| Sadwrn | 9:30 - 16:00 |

| BEDWAS | |
|---|---|
| Llun | 9:30 - 13:00 + 14:00 - 17:00 |
| Mawrth | 14:00 - 18:00 |
| Mercher | 9:30 - 13:00 + 14:00 - 18:00 |
| Gwener | 9:30 - 13:00 + 14:00 - 17:00 |
| Sadwrn | 9:30 - 13:00 |

| COED DUON | |
|---|---|
| Llun | 9:30 - 13:00 + 14:00 - 17:00 |
| Mawrth | 9:30 - 13:00 + 14:00 - 18:00 |
| Mercher | 9:30 - 13:00 + 14:00 - 17:00 |
| Iau | 9:30 - 13:00 + 14:00 - 17:00 |
| Gwener | 9:30 - 13:00 + 14:00 - 18:00 |
| Sadwrn | 9:30 - 16:00 |

| CAERFFILI | |
|---|---|
| Llun | 9:30 - 13:00 + 14:00 - 17:00 |
| Mawrth | 9:30 - 13:00 + 14:00 - 17:00 |
| Mercher | 9:30 - 13:00 + 14:00 - 18:00 |
| Iau | 9:30 - 13:00 + 14:00 - 18:00 |
| Gwener | 9:30 - 13:00 + 14:00 - 17:00 |
| Sadwrn | 9:30 - 16:00 |

| DERI | |
|---|---|
| Llun | 9:30 - 13:00 + 14:00 - 18:00 |
| Mercher | 9:30 - 13:00 + 14:00 - 18:00 |

| LLANBRADACH | |
|---|---|
| Mercher | 9:30 - 13:00 + 14:00 - 18:00 |
| Gwener | 9:30 - 13:00 + 14:00 - 18:00 |

| MACHEN | |
|---|---|
| Mawrth | 9:30 - 13:00 + 14:00 - 18:00 |
| Iau | 14:00 - 18:00 |
| Sadwrn | 9:30 - 13:00 |

| NELSON | |
|---|---|
| Llun | 9:30 - 13:00 + 14:00 - 18:00 |
| Mercher | 9:30 - 13:00 + 14:00 - 18:00 |
| Gwener | 9:30 - 13:00 + 14:00 - 17:00 |
| Sadwrn | 9:30 - 13:00 |

| TRECELYN | |
|---|---|
| Llun | 9:30 - 13:00 + 14:00 - 17:00 |
| Mawrth | 9:30 - 13:00 + 14:00 - 18:00 |
| Mercher | 14:00 - 17:00 |
| Iau | 9:30 - 13:00 + 14:00 - 17:00 |
| Gwener | 9:30 - 13:00 + 14:00 - 17:00 |

| TREDEGAR NEWYDD | |
|---|---|
| Llun | 9 :30 - 13:00 + 14:00 - 18:00 |
| Mercher | 9:30 - 13:00 + 14:00 - 18:00 |
| Iau | 9 :30 - 13:00 + 14:00 - 18:00 |
| Gwener | 9:30 - 13:00 + 14:00 - 18:00 |

| OAKDALE | |
|---|---|
| Mawrth | 9:30 - 13:00 + 14:00 - 18:00 |
| Mercher | 9:30 - 13:00 + 14:00 - 17:00 |
| Gwener | 9:30 - 13:00 + 14:00 - 17:00 |

| PENGAM | |
|---|---|
| Mawrth | 9:30 - 13:00 + 14:00 - 18:00 |
| Iau | 9:30 - 13:00 + 14:00 - 18:00 |

| RHYMNI | |
|---|---|
| Llun | 9:30 - 13:00 + 14:00 - 18:00 |
| Mawrth | 9:30 - 13:00 + 14:00 - 17:00 |
| Mercher | 9:30 - 13:00 + 14:00 - 18:00 |
| Iau | 9:30 - 13:00 + 14:00 - 17:00 |
| Gwener | 9:30 - 13:00 + 14:00 - 17:00 |

| RHISGA | |
|---|---|
| Llun | 9:30 - 13:00 + 14:00 - 18:00 |
| Mawrth | 9:30 - 13:00 + 14:00 - 17:00 |
| Mercher | 9:30 - 13:00 + 14:00 - 18:00 |
| Iau | 9:30 - 13:00 + 14:00 - 17:00 |
| Gwener | 9:30 - 13:00 + 14:00 - 17:00 |
| Sadwrn | 9:30 - 16:00 |

| YSTRAD MYNACH | |
|---|---|
| Llun | 9:30 - 13:00 + 14:00 - 17:00 |
| Mawrth | 9:30 - 13:00 + 14:00 - 18:00 |
| Mercher | 9:30 - 13:00 + 14:00 - 17:00 |
| Iau | 9 :30 - 13:00 |
| Gwener | 9:30 - 13:00 + 14:00 - 18:00 |
| Sadwrn | 9:30 - 13:00 |

## Canolfannau Gwasanaethau Cwsmer

**Nodwch:** bydd hefyd newidiadau i'r amserau agor yn ein canolfannau Gwasanaethau Cwsmer o Hydref y 1af. Am fwy o wybodaeth, ewch i'ch canolfan leol yng Nghaerffili (Llyfrgell Caerffili), Bargod (Capel Hanbury), Rhisga (Palas Rhisga), Coed Duon (Lle'r Farchnad), Ystrad Mynach (Tŷ Penallta), Pontlotyn (Stryd y Masnachwr) a Desg Arian Trecelyn (Llyfrgell Trecelyn).

**Fel arall ffoniwch 01443 815588 neu ewch i www.caerffili.gov.uk am fwy o fanylion.**

# UN CURIAD AR Y STRYDOEDD

**Mae'r digwyddiad poblogaidd Un Curiad, sy'n dathlu ac arddangos gwaith sefydliadau gwirfoddol lleol, wedi cymryd at y strydoedd eleni, yn ymweld â'r nifer o leoliadau i ddod â'r digwyddiadau hyn i galon cymunedau lleol.**

Mae'r cyntaf o'r sioeau teithiol - a gynhelir yng Nghoed Duon ym mis Gorffennaf, yn lletya dros 25 o fudiadau gwirfoddol sy'n dod at ei gilydd i arddangos y gwaith gwerthfawr y maent yn cyflawni o fewn bwrdeistref sirol Caerffili, yn ogystal â chynnig cyngor a chefnogaeth i aelodau o'r cyhoedd a fydd yn ymweld â'r digwyddiad.

Bydd y sioeau teithiol nesaf hyn yn cael eu cynnal ar ddydd Mercher 7 Hydref rhwng 10am a 2pm yng Nghanolfan Gymunedol Dewi Sant yn Rhymni.

Bydd digwyddiadau tebyg yn cael eu cynnal yng Nghaerffili a Rhisga dros y misoedd nesaf. Mae Un Curiad yn cael ei drefnu mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent (CMGG). Os ydych yn rhan o sefydliad gwirfoddol a bydd diddordeb gennych mewn cynnal stondin yn un o'r digwyddiadau sydd i ddod, ffoniwch **01633 241 550** neu e-bostiwch: gina.jones@gavowales.org.uk

Mae manylion cyswllt ar gyfer mudiadau gwirfoddol ym mwrdeistref sirol Caerffili wedi eu manylu mewn cyfeiriadur ar-lein defnyddiol, sy'n cynnwys dros 700 o gofnodion, ac mae ar gael ar safle we **www.caerffili.gov.uk**




# MAE'CH BWS YN BWYSIG!

**Bydd gan drigolion cyfle i siarad wyneb-yn-wyneb gyda darparwyr gwasanaeth bws mewn cyfres o ddigwyddiadau sydd i ddod.**

Mae'r digwyddiadau 'Mae'ch Bws yn Bwysig' wedi cael eu trefnu gan y cyngor, ar y cyd â Bus Users Cymru. Bydd y digwyddiadau yn cynnig y cyfle i chi siarad yn uniongyrchol â swyddogion y cyngor a rheolwyr cwmni bysiau am unrhyw faterion sy'n ymwneud â'u gwasanaeth bysiau, yn ogystal â'r cyfle i awgrymu unrhyw newidiadau y gellid eu cynnwys mewn amserlenni yn y dyfodol.



## BYDD DIGWYDDIADAU YN CAEL EU CYNNAL AR Y DYDDIADAU CANLYNOL:

- **Dydd Mawrth 29ain Medi:** Llyfrgell Trecelyn, 9.30am - 1.30pm
- **Dydd Mercher 30ain Medi:** Llyfrgell Rhymni, 10am - 12pm
- **Dydd Mercher 30ain Medi:** Llyfrgell Nelson, 2.30pm - 4.30pm
- **Dydd Iau 1af Hydref:** Llyfrgell Bargod, 10am - 2pm
- **Dydd Llun 5ed Hydref:** Llyfrgell Rhisga, 10am - 2pm
- **Dydd Mercher 7fed Hydref:** Llyfrgell Ystrad Mynach, 10am - 1pm
- **Dydd Mercher 7fed Hydref:** Llyfrgell Caerffili, 2pm - 5.45pm
- **Dydd Gwener 9fed Hydref:** Gorsaf Fysiau Coed Duon - ystafell aros, 10am - 2pm

**Am ragor o wybodaeth am y digwyddiadau 'Mae'ch Bws yn Bwysig' ffoniwch 01495 235 223**

# Diweddariad y Gofrestr Etholiadol ar y gweill

**Dros yr wythnosau diwethaf, bydd trigolion wedi derbyn llythyr gan dîm Gwasanaethau Etholiadol y Cyngor fel rhan o broses gofrestru flynyddol y cyngor. Mae'r llythyr hwn yn cynnwys manylion am bwy sydd wedi cofrestru ym mhob cyfeiriad.**

Diolch yn fawr iawn i'r holl aelwydydd sydd wedi ymateb yn barod - ond i'r rhai sydd eto i wneud hynny, mae'n bwysig iawn eich bod yn ymateb cyn gynted â phosibl. Bydd preswylwyr nad ydynt wedi ymateb hyd yma yn derbyn nodyn atgoffa, yn gofyn iddynt gadarnhau a yw'r wybodaeth dal i fod yn gywir neu i roi manylion am unrhyw newidiadau yn y cyfeiriad. Os nad oes unrhyw newidiadau gall preswylwyr ymateb drwy radffôn, neges testun, drwy'r post neu ar-lein. Gall unrhyw newidiadau ond cael eu gwneud drwy ddychwelyd y ffurflen neu ar-lein yn **www.register-online.co.uk**.

Os yw deiliaid tai am ychwanegu enw at y gofrestr, bydd y cyngor yn cysylltu â'r unigolyn hynny er mwyn trefnu iddynt gofrestru. Yn ôl y gyfraith, rhaid i bob cartref ymateb i'r ffurflen hon, a bydd unrhyw un nad sy'n gwneud hyn yn derbyn ymweliad gan arolygydd y Cyngor.

Meddai Chris Burns, Swyddog Canlyniadau'r cyngor, "Ni allaf bwysleisio digon pa mor bwysig ydyw bod trigolion yn cymryd camau rhagweithiol i wneud yn sicr eu bod ar y gofrestr etholiadol. Caiff y gofrestr etholiadol ei defnyddio ar gyfer amrywiaeth eang o bethau, gan gynnwys gwiriadau credyd, ac mae'n bosibl y bydd y trigolion hynny nad ydynt ar y gofrestr yn ei chael yn anodd cael benthyciad, morgais, cytundeb cyllid neu hyd yn oed gontract ffôn symudol."

Aeth yn ei flaen, "Mae cofrestru yn rhwymedigaeth gyfreithiol, ac mae mynd ar ôl trigolion nad ydynt wedi'u cofrestru hefyd yn costio arian i'r cyngor. Yn bwysicaf oll, fodd bynnag, os nad yw trigolion yn cael eu cofrestru, ni fyddant yn gallu arfer eu hawliau democrataidd yn y blwch pleidleisio ar gyfer etholiadau Llywodraeth Cymru a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu y flwyddyn nesaf."

**Bydd y gofrestr etholiadol yn cael ei gyhoeddi ar 1af Rhagfyr eleni.**

**Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â thîm Gwasanaethau Etholiadol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ar 01443 866909 neu drwy fynd i www.caerffili.gov.uk**



# Sicrhau gwell canlyniadau i bobl ifanc

**'Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid' yw cynllun gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at sicrhau gwell canlyniadau i bobl ifanc rhwng 11 a 24 oed.**

Er mwyn galluogi'r cyngor i reoli'r maes gwaith hwn yn effeithiol, mae ganddo gydlynydd a thîm o weithwyr ieuenctid sydd â'r cyfrifoldeb i gyflwyno rhaglen o waith er mwyn cyflawni chwe amcan allweddol:

- Cydnabyddiaeth gynnar - i gydnabod pobl ifanc y gall fod angen cymorth arnynt cyn gynted â phosibl.
- Olrhain - i weithio gyda sefydliadau eraill i olrhain cyflawniadau pobl ifanc.
- Broceriaeth - i ddarparu gweithwyr arweiniol i bobl ifanc a all ei gael yn anodd symud i hyfforddiant pellach neu gyflogaeth.
- Darpariaeth - i gasglu gwybodaeth am gyfleoedd sydd ar gael i bobl ifanc, i weithio gyda sefydliadau a chyflogwyr a all ddarparu cynlluniau hyfforddi ac i weithredu Gwarant Ieuenctid Llywodraeth Cymru, a fydd yn helpu i sicrhau bod pob person ifanc yn cael mynediad i gyrchfan addas.
- Cyflogaeth - i weithio gydag adrannau amrywiol y Cyngor a Busnesau er mwyn gwella gobeithion cyflogaeth pobl ifanc.
- Atebolrwydd - i asesu a gwerthuso cynnydd ar y cynllun prosiect sy'n galluogi'r Cyngor i ddangos cynnydd ar gyflawni canllawiau Llywodraeth Cymru.



**Am gyngor neu gymorth pellach ar gyfleoedd i bobl ifanc, cysylltwch â John Poyner ar 01443 864970 neu drwy e-bost ar poynej@caerffili.gov.uk**

# Pencampwr y Lluoedd Arfog

**Cafodd Cyng. Alan Higgs, aelod lleol ar gyfer Aberbargod, ei enwebu fel Pencampwr y Lluoedd Arfog am y tro cyntaf yn 2013, a oedd yn cyd-fynd gydag arwyddo Cyfamod Lluoedd Arfog Caerffili gan Fwrdd Gwasanaethau Lleol Caerffili, sefydliadau partner a chysylltiol a'n cymuned Lluoedd Arfog (gan gynnwys y rheini sy'n gwasanaethu, hen filwyr a'u teuluoedd) a sefydliadau cynrychiadol.**

Mae Alan yn frwd iawn am ei rôl fel Pencampwr, gan sicrhau fod yr ymrwymiad i barch ar y cyd a'r cymorth a amlinellir yn y Cyfamod yn cael ei ddarparu yn lleol gan yr holl bartneriaid a Fforwm Lluoedd Arfog Caerffili.

Dros y blynyddoedd diwethaf, gan adeiladu ar y gorymdeithiau milwrol amrywiol, dathliadau'r Lluoedd Arfog a digwyddiadau eraill sydd wedi cael eu cynnal ar draws y sir, mae Alan wedi parhau i godi ymwybyddiaeth o'r materion sy'n wynebu'n cymuned Lluoedd Arfog, gan weithio gyda'r Lleng Prydeinig Brenhinol a Chymdeithas y Milwyr, Morwyr, Awyrenwyr a'u Teuluoedd er mwyn darparu cymorth i'r rheini o'r hen filwyr sydd mewn angen. Er enghraifft, drwy hwyluso'r sefydliad a chael mynediad at "sesiynau galw i mewn" y Lleng Prydeinig Brenhinol a sesiynau estyn allan yn y fwrdeistref sirol, ailgyflwyno amryw o gofebion rhyfel, ayb.

Dywedodd Alan, "Rwy'n falch dros ben fod pobl bwrdeistref sirol Caerffili yn parhau i fod yn gefnogwyr gwych o'n Lluoedd Arfog, ac fel Pencampwr, byddaf yn gweithio'n ddiflino i lunio perthnasau gweithio agosach rhwng y rhai sy'n gwasanaethu yn y fyddin (yn rheolaidd ac wrth gefn), hen filwyr, byddin y cadéts, eu sefydliadau cymorth priodol a'n cymunedau lleol."



Gorymdaith y Cymry Brenhinol trwy Gaerffili



Yn y llun Cyng. Alan Higgs yw'r ail berson o'r chwith (rhes flaen).

Mae Alan yn cael ei gefnogi yn ei rôl gan Howard Rees (Prif Swyddog y Lluoedd Arfog a Chadeirydd y Fforwm) a John Elliott (Prif Swyddog Cynorthwyol) a gellir eu cysylltu ar **01443 864754**.

**Am fanylion pellach, ewch i wefan Lluoedd Arfog Caerffili ar www.caerphilly.gov.uk/My-Council/Armed-force**

# GWNEUD CWYN



**Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi newid y ffordd y mae cwynion ynghylch gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru yn cael eu trin.**

Yn awr mae dull dau gam i gwyno. Yng ngham un, bydd tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid y Cyngor yn cefnogi rhywun i geisio unioni pethau ar lefel leol gyda'r staff sy'n gweithio gyda'r unigolyn. Os ydynt yn dal yn anfodlon ar ddiwedd cam un, byddwn yn gofyn i rywun nad yw'n gweithio i'r Cyngor i gynnal ymchwiliad ffurfiol i'w cwyn.

Os bydd preswylydd yn parhau i fod yn anfodlon ar ôl cwblhau ymchwiliad cam dau, mae ganddynt yr hawl i symud ymlaen â'u cwyn at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Ni ddylai pobl fod yn bryderus neu'n ofnus i gwyno - rydym yn croesawu pob sylw, boed yn dda neu'n ddrwg, gan eu bod yn helpu i wella gwasanaethau ar gyfer pawb.


Mae taflenni newydd sy'n egluro'r broses ar gael yn holl swyddfeydd y Cyngor, oddi wrth weithiwr cymdeithasol, gweithiwr neu ofalydd cymorth, neu ar-lein ar **www.caerffili.gov.uk**

Gall cwynion neu sylwadau gael eu gwneud drwy ffonio **0800 328 4061**, yn bersonol neu drwy e-bost at - gwasanaethaucymdeithasol@caerffili.gov.uk

Ar gyfer pobl sydd ag anghenion arbennig, ac ar gyfer plant a phobl ifanc, gall y cyngor helpu drwy ddod o hyd i eiriolwr annibynnol i'w cefnogi drwy'r broses cwynion.

# Mae'r Nadolig yn dod...

Dewiswch y
STRYD FAWR
Canol Trefi - Mannau Unigryw




**Efallai mai dim ond mis Medi ydyw, ond mae tîm Rheoli Canol Trefi'r Cyngor eisoes yn brysur yn paratoi ar gyfer cyfnod y Nadolig!**

Unwaith eto mae'r cyngor wedi ymuno gyda manwerthwyr ar draws bwrdeistref sirol Caerffili i gyflwyno Llyfryn Talebau Dewiswch y Stryd Fawr Nadolig arbennig, a fydd yn cynnig gostyngiadau a chynigion gwych i siopwyr gan adwerthwyr stryd fawr y fwrdeistref sirol.

Profodd gynllun talebau tebyg yn ystod mis Rhagfyr 2014 yn boblogaidd iawn gyda thros 90 o gynigion gwahanol, felly gobeithir y bydd manwerthwyr a siopwyr fel ei gilydd yn awyddus i gymryd rhan yn y cynllun Nadolig eleni hefyd!

Gallwch gasglu llyfryn daleb oddi wrth atyniadau ymwelwyr dewisol, yn ogystal â llyfrgelloedd a chanolfannau gwasanaeth cwsmeriaid o ganol mis Hydref ymlaen, a gall y talebau cael eu defnyddio rhwng dydd Llun 16eg Tachwedd a dydd Iau 31ain o Ragfyr.

Mae'r ymgyrch boblogaidd Dewiswch y Stryd Fawr yn canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth o ran dewis y defnyddwyr, a'i nod yw annog pobl i ddefnyddio eu stryd fawr leol yn fwy aml - yn enwedig yn ystod y cyfnod masnachu hanfodol cyn y Nadolig.

**Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth am ymgyrch Dewiswch y Stryd Fawr drwy fynd i www.caerffili.gov.uk neu drwy ffonio 01443 866213**

# Perfformiad y Cyngor

**Y mis nesaf, bydd y cyngor yn cyhoeddi ei adroddiad perfformiad blynyddol sy'n hysbysu'r cyhoedd sut mae'r cyngor wedi perfformio yn 2014/15.**

**Bydd yr adroddiad hwn yn cynnwys beth sydd wedi mynd yn dda, ardaloedd i wella, sut mae'r cyngor wedi perfformio yn erbyn ei flaenoriaethau, ei datganiad ariannol a gwybodaeth berthnasol eraill. Bydd dogfen crynodeb byr, yn ogystal â dogfen dechnegol hirach yn cael ei gyhoeddi tua diwedd mis Hydref - y ddau fel copi caled ac ar-lein ar www.caerffili.gov.uk. Bydd copïau caled ar gael i'w gweld yn y llyfrgelloedd, derbynfeydd swyddfeydd cyngor a chanolfannau Cwsmer yn Gyntaf.**

**Gall drigolion wneud sylwadau ar y cyhoeddiad drwy gysylltu ag Uned Rheoli Perfformiad y cyngor ar 01443 864 382 neu drwy fynd ar-lein: www.caerffili.gov.uk**




## Symud Swyddfeydd

**Bydd gwasanaethau allweddol yn symud allan o Swyddfeydd y Cyngor Pontllan-fraith ar ddiwedd mis Medi fel rhan o gaead arfaethedig o'r safle yn gynnar y flwyddyn nesaf.**

Bydd timau **Safonau Masnach, Trwyddedu, Iechyd yr Amgylchedd** a **Diogelwch Cymunedol** yn adleoli i brif swyddfeydd y cyngor yn Nhŷ Penallta yn Ystrad Mynach.

Bydd aflonyddu yn cael ei gadw i'r isafswm yn ystod y symud a bydd rhifau ffôn presennol ar gyfer y timau yn aros yr un peth.

Yn hwyrach yn y flwyddyn, bydd **Gwasanaethau Cynllunio, Tai** a **Pheirianneg** hefyd yn adleoli i safleoedd eraill. Bydd gwybodaeth bellach am y symudiadau hyn ar gael cyn bo hir.

Os oes unrhyw ymholiadau gennych, cysylltwch â phrif switsfwrdd y cyngor ar **01443 815588**. Rhif **argyfwng tu allan i oriau swyddfa** ar gyfer y cyngor yw **01443 875500.**



## Drws ffrynt er mwyn cysylltu â Gwasanaethau Cymdeithasol

**Mae gan y cyngor ddyletswydd i sefydlu Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014.**

Bydd y Ddeddf yn dod i rym ym mis Ebrill 2016 a bydd yn trawsffurfio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal cymdeithasol yn cael eu darparu ar draws Cymru gan roi dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu pobl gyda gwybodaeth a chyngor yn ymwneud â gofal a chymorth wrth gael mynediad at ofal a chymorth.

### Rôl y Gwasanaeth yw:

- I gysylltu â phobl i ddod o hyd i'r ffordd at les gorau eu hun
- I helpu cysylltu pobl gyda'u cymunedau
- I fod yn wyliadwrus am unrhyw arwyddion o bryderon diogelu
- I gyrraedd cytundeb gyda'r canlyniadau y mae'r person eisiau neu angen er mwyn cyflawni a pha gamau sydd angen eu gwneud er mwyn cyrraedd hynny

Rhaid i'r gwasanaeth hefyd fod yn hygyrch i bawb drwy ddarparu man mynediad ar gyfer gwasanaethau, a chyfeirio pobl i'r ateb mwyaf addas i gwrdd â'u hanghenion.Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth wedi cael ei ffurfio drwy uno'r Tîm Dyletswydd a Gwybodaeth Gwasanaethau Oedolion â'r Tîm Cysylltu a Chyfeirio Gwasanaethau Plant.



**Y rhifau rhad ac am ddim i gysylltu â'r Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth yn aros heb eu newid:**
Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant **0808 100 1727**,
Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion Adults
**0808 100 2500** neu ewch i **www.caerffili.gov.uk**

## GWAITH FFORDD - Y DIWEDDARAF

### Gwelliannau cylchfan Pwll-y-pant

Mae cynigion i wella cylchfan **A469/A468 Pwll-y-pant** yng Nghaerffili dal ar fynd. Mae'r cyngor yn cymryd rhan mewn ymarfer caffaeliad ar hyn o bryd i ddewis contractwr ar gyfer y cynllun ac mae'r gweithfeydd dal yn amodol ar sicrhau cyllid oddi wrth Lywodraeth Cymru.

Mae cynlluniau ar gyfer y gweithfeydd gwella yn parhau i fod ar gael ar wefan y cyngor, a bydd arwyddion o flaen llaw yn cael eu gosod ar y safle, yn ogystal â gwybodaeth bellach sydd ar gael cyn bydd y gweithfeydd adeiladu yn cychwyn.

### Gwelliannau cyffordd Crymlyn

Mae'r tywydd garw diweddar wedi effeithio ar Gynllun gwella cyffordd Crymlyn y A467/A472. Mae ail-wynebu a gweithfeydd marcio heolydd wedi cael ei effeithio gan y tywydd gwlyb, felly rydym yn rhagweld y bydd yn cael ei orffen diwedd mis Medi.

Mae pob ymdrech yn cael ei wneud i orffen y cynllun cyn gynted ag sy'n bosib, a hoffai'r cyngor ymddiheuro am unrhyw anghyfleustra a achosir.

Am fwy o wybodaeth ffoniwch **01443 866 511** neu e-bostiwch peirianneg@caerffili.gov.uk.

### Cynigon corridor yr M4

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal cyfres o arddangosfeydd gwybodaeth i'r cyhoedd ar gyfer trigolion i ddarganfod mwy am eu cynigion ar gyfer rhan newydd o'r draffordd i'r de o Gasnewydd, a fyddai'n lleihau traffig a mynd i'r afael â phroblemau cludiant ar yr M4 presennol o amgylch Casnewydd.

**Mae'r arddangosfeydd mwyaf ar gyfer trigolion bwrdeistref sirol Caerffili yn:**

- **Canolfan Siopa Dewi Sant, Caerdydd – Dydd Gwener 18fed Medi – 12pm-6pm**
- **Canolfan Siopa Kingsway, Casnewydd – Dydd Llun 21ain Medi – 9am-5.30pm**
- **Sefydliad Lysaght, Casnewydd – Dydd Gwener 25ain Medi – 11am – 7.30pm a Dydd Sadwrn 26ain Medi – 10am-4pm**

**Am fwy o wybodaeth ar gynigion corridor yr M4, ewch i www.gov.wales/m4newport**



## Cynllun rhyddhad ardrethi manwerthu

**Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn annog busnesau lleol cymwys i hawlio arbedion mewn rhyddhad ardrethi busnes.**

Wedi'i gyflwyno gan Lywodraeth Cymru yn 2014, mae'r Cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnes Cyfraddau Manwerthu Cymru yn awr yn rhedeg am flwyddyn arall gyda'r nod o roi cymorth i drethdalwyr cymwys ar eu biliau ardrethi busnes ar gyfer y flwyddyn ariannol 2015/16.

Mae'r cymorth grant yn berthnasol i safleoedd manwerthu cymwys dan feddiant â gwerth ardrethol o £50,000 neu lai, sy'n darparu gwasanaeth yn gyfan gwbl neu'n bennaf at aelodau o'r cyhoedd sy'n ymweld. Eleni mae rhyddhad ardrethi manwerthu o hyd at £1,500 ar gael yn amodol ar gyflawni meini prawf y cynllun.

Mae swyddogion o Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi postio ffurflenni cais i sefydliadau cymwys, gan eu hannog i fanteisio ar y cymorth ariannol sydd ar gael.

**Am fwy o wybodaeth, ffoniwch 01443 863006 neu ewch i www.caerphilly.gov.uk/sportcaerphilly**



## Cadwch mewn cysylltiad trwy NewsONLine

### Mae'n awr yn haws fyth i drigolion i gadw mewn cyswllt â Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili - diolch i lansiad diweddar bwletin newydd sbon dros e-bost bob pythefnos.



Gyda'r bwriad o gyd-fynd â phapur newydd poblogaidd y cyngor 'Newsline' - mae'r diweddariad electronig bob pythefnos, a elwir yn 'NewsONLine', yn galluogi trigolion i gael yr holl newyddion a gwybodaeth ddiweddaraf am ddigwyddiadau sydd ar y gweill, swyddi gwag, gwaith ffordd, rhestrau cynllunio a chyfarfodydd y cyngor wedi'u danfon yn uniongyrchol at eu mewnflwch bob pythefnos.

Mae'r gwasanaeth am ddim hefyd yn amlygu ac yn dathlu cyflawniadau a wnaed gan ysgolion a grwpiau cymunedol ar draws bwrdeistref sirol Caerffili.

Yn ogystal â'r newyddion diweddaraf, gall trigolion hefyd gofrestru i dderbyn hysbysiadau brys am gau ffyrdd, cau ysgolion, amhariadau gwasanaeth a mwy - sy'n golygu y byddant yn cael eu hysbysu am faterion sy'n effeithio arnynt ar draws y fwrdeistref sirol.

Dywedodd y Cynghorydd Barbara Jones, "Mae cyflwyno 'NewsONLine' yn gam gwirioneddol ymlaen i ni, wrth i ni edrych i gysylltu â'n trigolion yn y dull mwyaf uniongyrchol ac effeithlon ag y bo modd. Bydd derbyn y newyddion a'r wybodaeth ddiweddaraf o amrywiaeth eang o wasanaethau'r cyngor mewn un e-bost yn ei wneud yn haws i drigolion i gael gwybod beth sy'n digwydd, a sut y gallant gymryd rhan a dweud eu dweud."

**Am fwy o wybodaeth, ac i gofrestru ar gyfer 'NewsONLine', ewch i www.caerffili.gov.uk a chliciwch ar y botwm 'Cadwch mewn Cyswllt'.**

CAERPHILLY COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

## Llwyddiant i'r cynllun sgôr hylendid

**Mae hylendid bwyd da mewn bwytai, tafarndai, caffis a mannau eraill sy'n gwerthu neu'n gweini bwyd llawer haws i nodi'n awr, diolch i lwyddiant y Cynllun Sgôr Hylendid Bwyd.**




Mae'r cynllun, a gyflwynwyd ym mis Hydref 2010 yn rhoi sgôr o sero i bump i fusnesau (pump yw'r uchaf) ar eu safonau hylendid bwyd, ar ôl i arolygiad diogelwch bwyd cael ei wneud gan dîm Diogelwch Bwyd y Cyngor.

Mae cyfuniad o ymroddiad y perchennog busnes bwyd a chefnogaeth a chyngor swyddogion wedi cyfrannu at gynnydd mewn safonau hylendid bwyd mewn busnesau bwyd ar draws fwrdeistref sirol Caerffili dros y blynyddoedd diwethaf.

Yn 2010/11, dyfarnwyd 87% o fusnesau bwyd a leolir o fewn y fwrdeistref sirol gyda sgôr hylendid bwyd o dri neu fwy. Mae hyn wedi codi i 95% yn 2014/15 - cynnydd o 8% yn y pedair blynedd ers i'r cynllun gael ei gyflwyno.

Ar hyn o bryd mae gan 172 o fusnesau yn y fwrdeistref sirol sgôr hylendid bwyd o dri, 344 gyda sgôr o bedwar ac mae gan 621 y raddfa uchaf o bump. Mae tystiolaeth yn dangos bod y rhan fwyaf o weithredwyr busnesau bwyd yn gweithio'n galed i gynnal a gwella safonau hylendid bwyd yn eu busnesau.

Ym mis Tachwedd 2013 daeth yn orfodol i fusnesau bwyd arddangos eu sgôr hylendid bwyd wrth neu gerllaw pob mynedfa cwsmer i'r sefydliad. Hefyd ar gyfer cwsmeriaid sy'n archebu bwyd dros y ffôn daeth yn orfodol i'r busnes bwyd roi eu sgôr hylendid bwyd i'r cwsmer os gofynnwyd amdano.

Os byddwch yn gweld busnes sydd heb arddangos eu sticer sgôr hylendid bwyd, ffoniwch **01495 235340** neu e-bostiwch: **diogelwchiechydbwyd@caerffili.gov.uk**. Edrychwch ar sgoriau hylendid bwyd ar-lein drwy fynd i **www.food.gov.uk/ratings**

## Dywedwch wrthym am eich newidiadau

**Anogir trigolion sy'n hawlio budd-dal tai neu ostyngiad treth y cyngor oddi wrth y cyngor i gysylltu â ni ar unwaith os bydd eu hamgylchiadau'n newid.**

Mae angen i'r cyngor wybod am unrhyw newidiadau sy'n effeithio ar breswylwyr, eu partneriaid ac unrhyw un arall sy'n byw yn y cartref. Mae'n bwysig bod trigolion yn rhoi gwybod i'r cyngor am unrhyw newidiadau, gan y gallai effeithio ar swm y budd-daliadau maent yn eu derbyn. Hefyd, gall beidio rhoi gwybod i'r cyngor am newid mewn amgylchiadau, o fewn mis i hynny ddigwydd, arwain at breswylwyr yn colli allan ar fudd-daliadau.

### Mae enghreifftiau o newidiadau y mae'n rhaid i drigolion dweud wrth y cyngor amdanynt yn cynnwys:



- Newidiadau mewn incwm unrhyw un sy'n byw yn y cyfeiriad - gan gynnwys newidiadau budd-daliadau
- Derbyn Credyd Cynhwysol
- Newid cyfeiriad
- Newidiadau mewn cynilion/buddsoddiadau
- Newidiadau i Gymhorthdal Incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth neu Lwfans Ceisio Gwaith
- Newidiadau i Gredyd Treth Plant a/neu Gredyd Treth Gwaith
- Pan ydych chi neu'ch partner yn dechrau gweithio, newid swydd, mynd i'r ysbyty, neu os bydd rhywun yn ymuno neu'n gadael y cartref
- Os yw plentyn yn gadael ysgol neu rywun sy'n byw yn yr eiddo 18 oed neu hŷn yn dechrau neu'n rhoi'r gorau i waith
- Newid rhent (tenantiaid nad ydynt yn y cyngor yn unig)

Wrth gysylltu â'r cyngor, bydd angen i drigolion esbonio beth sydd wedi newid, dyddiad y newid ac anfon prawf o'r amgylchiadau newydd. Mae peidio â rhoi gwybod am newid a all effeithio ar eich budd-dal yn drosedd. Gall achos gweithredol gael ei gymryd yn erbyn preswylwyr os teimlir eu bod wedi oedi yn fwriadol neu beidio rhoi gwybod am newid mewn amgylchiadau. Gall trigolion yng Nghaerffili bellach gwblhau ffurflenni 'Newid mewn Amgylchiadau' ar-lein drwy ymweld â'n gwefan – **www.caerphilly.gov.uk/Services/Housing-benefits/Tell-us-about-changes**. Fel arall, ffoniwch **01443 866567** neu e-bostiwch budd-daliadau@caerffili.gov.uk am gymorth.

# *Useful*Numbers / *Rhifau*Defnyddiol

**MAIN SWITCHBOARD**
PRIF SWITSFWRDD
☎ **01443 815588**

**Minicom** Minicom
☎ **01443 873626**

**Emergency Number for Council Services:**
Rhif argyfwng ar gyfer Gwasanaethau'r Cyngor:
☎ **01443 875500**
(Out of hours only • Allan o Oriau yn unig)

**Adults' Social Services**
Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion
☎ **0808 100 2500**

**StreetPride** BalchderStryd
☎ **01443 866566**

**Children's Social Services**
Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant
☎ **0808 100 1727**

**Consumer Advice**
Cyngor i Ddefnyddwyr
☎ **08454 04 05 06**

**Council Tax Enquiries**
Ymholiadau Treth y Cyngor
☎ **01443 863002**

**Furniture Recycling**
Ailgylchu Dodrefn
☎ **01685 846830**

**Housing & Council Tax Benefits**
Budd-daliadau Tai/Treth y Cyngor
New Claims: / Hawliau Newydd: **01443 866567**
Existing Claimants: / Hawlwyr Presennol: **01443 864099**

**Blue Badge** Bathodyn Glas ☎ **01443 866571**

## Handy tips!

**Condensation is the dampness formed when warm moist air is cooled by contact with a cold surface.**

High levels of condensation can result in black, green or white mould growth on walls and other cold surfaces, on furniture and clothes. Every home gets condensation at some point. To prevent this from occurring, there are some handy tips that can help you out:

- **Cover pans when cooking, use extraction fans if you have them**
- **Open windows & keep internal doors closed while cooking or bathing**
- **Ensure that any tumble dryers are vented to the outside**
- **Do not hang wet washing on radiators**
- **Hang washing outside to dry where possible. If not, use a clothes horse in one room with the door closed and the window open**
- **Avoid using paraffin or gas heaters**
- **Provide a balance between heating and ventilation in your home**

**For more information please contact call 01495 235216 or email: privatesectorhousing@caerphilly.gov.uk**

## Awgrymiadau defnyddiol!

**Anwedd yw'r lleithder sy'n ffurfio pan fydd awyr llaith cynnes yn oeri trwy gyswllt gydag arwyneb oer.**

Gall lefelau uchel o anwedd arwain at lwydni du, gwyrdd neu wyn ar waliau ac arwynebau oer eraill, ar ddodrefn a dillad. Mae pob cartref yn cael anwedd ar ryw adeg. Er mwyn atal hyn rhag digwydd, dyma rhai awgrymiadau defnyddiol a all eich helpu allan:

- **Rhowch gaead ar sosbenni wrth goginio, defnyddiwch ffannau echdynnu os oes gennych rai**
- **Agorwch ffenestri a chadwch ddrysau mewnol ar gau wrth goginio neu ymolchi**
- **Sicrhewch fod unrhyw beiriannau sychu dillad yn cael eu hawyru i'r tu fas**
- **Peidiwch â hongian golch gwlyb ar reiddiaduron**
- **Hongiwch eich golch tu fas i'w sychu lle y bo'n bosibl. Os nad yw'n bosib, defnyddiwch geffyl dillad mewn un ystafell gyda'r drws ar gau a'r ffenestr ar agor**
- **Peidiwch â defnyddio gwresogyddion paraffin neu nwy**
- **Darparwch gydbwysedd rhwng gwresogi ac awyru eich cartref**

**Am fwy o wybodaeth, ffoniwch 01495 235216 neu ebost: taisectorpreifat@caerffili.gov.uk**

# What's ON / Digwyddiadau

**Sign up to receive regular information about local events by e-mailing: events@caerphilly.gov.uk**

**For information about upcoming talks, book clubs and craft sessions at your local library visit www.caerphilly.gov.uk or call 01443 864068**

## The 39 Steps


**6/10 - 8/10 • 7.30pm**

*Blackwood Miners' Institute • Sefydliad y Glowyr Coed Duon*

*Hitchcock's tale of espionage is playfully brought to the stage as a comic spoof. Fast paced and full of adventure, this whodunit features 4 actors, 139 characters and 39 steps – all in 100 minutes!* ***Tickets £14/£12 www.blackwoodminersinstitute.com***

*Daw stori Hitchcock o ysbïo i'r llwyfan fel drama gomedi chwareus. Cyflym, gyffrous a llawn antur, mae'r 'whodunit' yn cynnwys 4 o actorion, 139 cymeriad a'r '39 Steps' - a phopeth mewn 100 o funudau!* ***Tocynnau £14/£12 www.blackwoodminersinstitute.com***

**01495 227 206**




## ActiviTime: Horrible History
## Amser Gweithgaredd: Hanes Erchyll

**26/10 - 30/10 • 11am - 12pm**


*Winding House • Y Tŷ Weindio*

*Fun family crafts with a historical – and spooky – twist! Part of the Welsh Museums Festival.* ***Booking essential - Cost £2.50 per child.***

*Crefftau i'r teulu am ddim gyda thwist hanesyddol - ac ofnus! Rhan o Ŵyl Amgueddfeydd Cymru.* ***Mae archebu yn hanfodol. Cost £2.50 y plentyn.***

**01443 822666**






## Madame Butterfly

**27/10 • 7.30pm**

*Blackwood Miners' Institute • Sefydliad y Glowyr Coed Duon*

*English Heritage Opera present a brand new production of one of the world's most popular operas, Puccini's heart-breaking story of undying love and longing. Sung in Italian with English subtitles.* ***Tickets £18/£17 www.blackwoodminersinstitute.com***

*Opera Treftadaeth Saesnig yn cyflwyno cynhyrchiad newydd sbon o un o operâu mwyaf poblogaidd y byd, stori dorcalonnus Puccini o gariad anfarwol a hiraeth. Canir yn Eidaleg gydag isdeitlau Saesneg.* ***Tocynnau £18/£17 www.blackwoodminersinstitute.com***

**01495 227 206**

## Campfire Fun • Hwyl Tân Gwersyll

**28/10 • 11am - 12pm**

*Log circle – Parc Cwm Darran • Cylch boncyffion – Parc Cwm Darran*

*Come along to a fire lighting/fire awareness and safety evening linked to Bonfire Night - with marshmallows being cooked and hot chocolate.* ***Cost £1.50 - Booking is required.***

*Dewch i noson cynnau tân / ymwybyddiaeth a diogelwch tân sy'n gysylltiedig â Noson Tân Gwyllt – gyda malws melys yn cael eu coginio a siocled poeth.* ***Cost £1.50 - Mae angen cadw lle.***



**01443 875 557**

## Halloween wildlife fun
## Hwyl Bywyd Gwyllt Calan Gaeaf

**30/10 • 4pm**

*Visitor Centre – Parc Cwm Darran • Canolfan Ymwelwyr - Parc Cwm Darran*

*Come along and hunt for the creatures that roam in the park at night – make a mask in the centre, or see and learn about the hedgehogs who need our help to survive. Cost £5 for all activities. Please wear appropriate clothing and footwear and bring a torch.* ***Cost £5 - Suitable for all ages.***

*Dewch a hela'r creaduriaid sy'n crwydro yn y parc gyda'r nos-gwnewch fwgwd yn y ganolfan, neu gallwch weld a dysgu am ddraenogod sydd angen ein help i oroesi. £5 ar gyfer yr holl weithgareddau. Gwisgwch ddillad ac esgidiau addas a dewch a thortsh.* ***Cost £5 - Yn addas ar gyfer pob oedran.***

**01443 875 557**

## Tales of things that go bump in the night!
## Chwedlau o bethau sy'n neud sŵn yn y nos!

**31/10 • 5 - 6pm + 6.30 - 7.30pm**

*Cwmcarn Forest • Coedwig Cwmcarn*

*Join us in your scariest costume for an evening at our 'graveyard' for spine-tingling tales of spooky ghosts. 5-6pm suitable for 5-7 year olds, 6.30-7.30pm suitable for 8-10 year olds. Tea/coffee/squash provided.* ***£4 per adult + £2.50 per child - Booking is advisable.***

*Ymunwch â ni yn eich gwisg fwyaf ofnus am noson yn ein 'mynwent' am chwedlau iasoer o ysbrydion ofnus. 5-6pm yn addas ar gyfer plant 5-7 blwydd oed, 6.30-7.30pm yn addas ar gyfer plant 8-10 oed. Yn cynnwys te/coffi/sgwas.* ***£4 yr oedolyn + £2.50 y plentyn - Fe'ch cynghorir i archebu lle yn gynnar.***

**01495 272 001**

## Ystrad Mynach Festive Fayre
## Ffair Gŵyl Ystrad Mynach

**21/11**

*Ystrad Mynach town centre • Addurniadau Clai Coed Nadolig*

*A selection of festive food and craft stalls, will run through the length of Bedwlwyn Road. With stacks of entertainment for all - including funfair rides, make sure the whole family wrap up warm and come and join in the fun.* ***www.caerphilly.gov.uk/christmas***

*Bydd detholiad o stondinau bwyd a chrefft Nadoligaidd yn rhedeg ar hyd Heol Bedwlwyn. Gyda phentyrrau o adloniant i bawb – gan gynnwys reidiau ffair hwyl, sicrhewch fod y teulu yn gwisgo'n gynnes a dewch i ymuno â'r hwyl.* ***www.caerphilly.gov.uk/christmas***

**029 20 880011**

## Christmas Tree decorations
## Addurniadau Clai Coed Nadolig

**21/11 • from 10am**

*Cwmcarn Forest • Coedwig Cwmcarn*

*Join Jo for this popular festive workshop a create your own glittery festive clay decoration to hang on the tree. 3 sessions available from 10am.* ***Suitable for ages 4 plus. £3 per child - Booking is advisable.***

*Ymunwch â Jo ar gyfer y gweithdy gŵyl boblogaidd hwn i greu addurn Nadoligaidd disglair eich hun i roi ar y goeden. 3 sesiwn ar gael o 10am.* ***Addas i blant 4+ £3 y plentyn - Fe'ch cynghorir i archebu lle yn gynnar.***

**01495 272 001**

## Bargoed Christmas Market
## Marchnad Nadolig Bargod

**28/11 • 10am - 4pm**

*Bargoed town centre • Canol Tref Bargod*

*A selection of food and craft stalls will run through the High Street, offering an opportunity to kick-start your Christmas shopping while enjoying the festive atmosphere. Will feature funfair rides, local bands and choirs, street theatre and children's crafts.* ***www.caerphilly.gov.uk/christmas***

*Bydd detholiad o stondinau bwyd a chrefft yn rhedeg trwy'r Stryd Fawr, gan gynnig cyfle i ddechrau eich siopa Nadolig tra'n mwynhau awyrgylch Nadoligaidd. Yn cynnwys reidiau hwyl y ffair, bandiau a chorau lleol, theatr stryd a chrefftau i blant.* ***www.caerffili.gov.uk/ynadolig***

**029 20 880011**



## Bargoed Fireworks Display
## Arddangosfa Tân Gwyllt Bargod

**5/11 • 6.30pm**

*Hanbury Road Car Park • Maes Parcio Heol Hanbury*

*Annual fireworks display from Bargoed Town Council. Includes free children's rides and refreshments available on site.* ***FREE***

*Arddangosfa tân gwyllt blynyddol gan Gyngor Tref Bargod. Yn cynnwys reidiau i blant a lluniaeth am ddim ar gael ar y safle.* ***AM DDIM***

**01443 830184**

**Cofrestrwch i dderbyn gwybodaeth reolaidd am ddigwyddiadau lleol drwy e-bostio: digwyddiadau@caerffili.gov.uk**

**I gael gwybodaeth am sgyrsiau, clybiau llyfrau a sesiynau crefft sydd ar y gweill yn eich llyfrgell leol ewch i www.caerffili.gov.uk neu ffoniwch 01443 864068**

**www.caerphilly.gov.uk/events • www.caerffili.gov.uk/digwyddiadau**

# Protecting You • Eich Diogelu Chi

**The council's Public Protection team aims to ensure that the county borough is a healthy, safe and fair place for people to live, work & visit.** One of the team's key tasks is to expose and bring before the courts those individuals and businesses we discover acting illegally.

**Below are examples of recent prosecutions:**

**Nod tîm Diogelu'r Cyhoedd y cyngor yw sicrhau bod y fwrdeistref sirol yn lle iach, diogel a theg i bobl fyw a gweithio ynddo ac ymweld.** Un o brif dasgau'r tîm yw datgelu'r gwir am yr unigolion a'r busnesau hynny sy'n gweithredu'n anghyfreithlon, a'u dwyn gerbron y llys.

**Isod ceir enghreifftiau o erlyniadau diweddar:**

### Trading Standards prosecutions • Erlyniadau Safonau Masnach

| Defendant | Offence | Court Decision |
|---|---|---|
| Robert Davies, Caerphilly – trading as Cheaper Cars | *Offence of offering to supply two motor vehicles that were in a dangerous condition, in relation to tyres and suspension.*<br>*Court hearing – 26th June 2015 at Newport Magistrates Court.* | £1000 fine, £500 costs to the council and a £50 victim surcharge.<br>General Product Safety Regulations 2005. |
| Dayne Bartlett, Ystrad Mynach – trading as Touch of Class Upholstery | *Offence of supplying a converted camper vehicle which was in a dangerous condition, due to the gas installation and rear seat installation.*<br>*Court hearing – 12th June 2015 at Newport Magistrates Court.* | £900 fine, £1,950.85 costs to the council and £45 victim surcharge.<br>General Product Safety Regulations 2005. |
| Robert Kerr, Cefn Fforest | *His act or default causing the supply of a converted camper vehicle which was in a dangerous condition due to the gas installation.*<br>*Court hearing – 12th June 2015 at Newport Magistrates Court.* | £450 fine, £975 costs to the local authority and £45 victim surcharge.<br>General Product Safety Regulations 2005. |

### Environmental health prosecutions Erlyniadau'n ymwneud ag iechyd yr amgylchedd

| Defendant | Offence | Court Decision |
|---|---|---|
| Mr Michael Moon Penywerlod Road, Markham | *Offence of leaving litter at Hanbury Square, Bargoed on 3rd March 2015.*<br>*Court Hearing: - Newport Magistrates - 10th July 2015.* | Attended court and pleaded guilty. Ordered to pay £75 fine, £120 costs and £20 victim surcharge.<br>Environmental Protection Act 1990, Section 87 & 88. |
| Kirsty McCarthy Claerwen, Gelligaer | *Offence of failing to remove dog's faeces at Aneurin Bevan Avenue, Gelligaer on 25th February 2015.*<br>*Court Hearing at Newport Magistrates on 10th July 2015.* | *Pleaded guilty by post and ordered to pay fine - £75, costs -£120 and victim surcharge - £20.*<br>*Dogs (Fouling of Land) Act 1996.* |
| Mr Ian Dallymore Hanbury Court, Bargoed | *Discarding litter at Bargoed High Street on 3rd March 2015.*<br>*The case was heard at Newport Magistrates court on 10th July 2015.* | *Pleaded guilty by post and issued with £75 fine, £120 costs, £20 Victim surcharge.*<br>*The Environmental Protection Act 1990 Sections 87 & 88.* |
| Mr Jasminder Singh Bal Proprietor of Bal's Convenience Store Ltd, Bargoed | *Two offences contrary to the Environmental Protection Act 1990, in that he breached his duty of care allowing waste under his control to be disposed on land unlicensed to receive it, and he breached his duty of care regarding commercial waste.* | Pleaded guilty and given a £1,000 fine, and ordered to pay prosecution costs of £431.56 together with a £100 victim surcharge.<br>Environmental Protection Act 1990. |

**To view the full list, visit www.caerphilly.gov.uk/prosecutions**
**Gellir gweld y rhestr yn llawn ar www.caerffili.gov.uk/erlyniadau**

Prosecution results are provided for a limited period to promote the openness of the council's actions to local residents. Information provided must not be reused in any form without the agreement of CCBC. Caiff canlyniadau erlyniadau eu dangos am gyfnod cyfyngedig i ddangos i drigolion lleol bod y cyngor yn gweithredu mewn modd agored. Ni ddylid ailddefnyddio gwybodaeth mewn unrhyw fodd heb ganiatâd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

## Foster Appeal

**The Council needs foster carers to care for children over the age of 10. We offer extensive support, comprehensive training & attractive fees.**

If you have room in your home and time in your life, why not call **0800 587 5664**, text **78866** or visit **www.caerphilly.gov.uk/fostering**. Texts cost the standard network rate.



## Apêl Maethu

**Mae angen gofalyddion maeth ar y cyngor i ofalu am blant dros 10 oed. Rydym yn cynnig cymorth helaeth, hyfforddiant cynhwysfawr a ffioedd deniadol.**

Os oes gennych le yn eich cartref ac amser yn eich bywyd, beth am ffonio **0800 587 5664**, anfon neges destun at **78866** neu ewch i **www.caerffili.gov.uk/maethu**. Mae negeseuon testun yn costio'r gyfradd rhwydwaith safonol.